

# Rôl y sector gwirfoddol yn llunio economi newydd i Gymru

Dr Duncan Holtom a Dr Sarah Lloyd-Jones

Mehfin 2020



Comisiynwyd gan CGGC (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru)

[wcva.cymru](http://wcva.cymru)

## Cynnwys

Diolchiadau .....	3
1. Cyflwyniad.....	4
Ffigur 1. Nodau llesiant.....	5
2. Ein heconomi a'n llesiant, heddiw ac yfory.....	8
3. Rôl y sector gwirfoddol yn llunio'r economi newydd .....	11
Ffigur 2. Modelau darparu gwasanaethau .....	11
Ffigur 3. Y cylch llunio polisi .....	12
Ffigur 4. Haenau o gefnogaeth a gwasanaethau.....	13
4. Prif rwystrau a galluogwyr yng nghyfranogiad y sector gwirfoddol at lesiant a'r economi newydd .....	16
5. Casgliadau ac Argymhellion.....	19

## **Diolchiadau**

Hoffai'r awduron ddiolch i Anna Nicoll yng Nghyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru am ei chymorth a'i chynghor, ac am gyfraniadau Alun Jones, Buddsoddiad Cymdeithasol Cymru, Cerys Furlong, Chwarae Teg, Cherrie Bija, Faith in Families, Chris Johnes, Ymddiriedolaeth Adeiladu Cymunedau a Jess McQuade, WWF Cymru.

## 1. Cyflwyniad


### Llesiant Cymru

- 1.1. Mae llesiant yn disgrifio “sut ydyn ni’ fel unigolion, cymunedau ac fel cenedl, a pha mor gynaliadwy yw hynny ar gyfer y dyfodol” ([What Works Wellbeing n.d. a](#)). Mae ein llesiant yn dibynnu ar sawl ffactor, gan gynnwys cyflogaeth, addysg a sgiliau, llywodraethu, iechyd, yr amgylchedd, ein cydberthnasau, ansawdd y llefydd rydyn ni'n byw ynddyn nhw, ac yn y pen draw, sut rydyn ni'n teimlo ([What Works Wellbeing n.d.b](#)).
- 1.2. Yn y rhan fwyaf o fesuryddion allweddol, mae llesiant yng ngwledydd Prydain wedi cynyddu neu aros yn sefydlog ([What Works Wellbeing n.d. a](#)). Fodd bynnag, mae hyn yn cuddio anghydraddoldebau sylweddol, gyda rhai grwpiau yn profi lefelau llesiant llawer is nag eraill, a chaiff lefelau llesiant cyffredinol yng Nghymru eu peryglu gan heriau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd, (y cyfeirir atynt mewn cyd-bapur, Ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd [[insert hyperlink](#)]), tlodi, anghydraddoldebau iechyd, swyddi a thwf ([LIC, 2017](#)). Mae Brexit yn ychwanegu at y peryglon, a rhagwelir y bydd yn cael effaith negyddol ar yr economi a chyllido yng Nghymru ([LIC, 2019](#)). Yn ogystal, ni fyddwn yn gwybod beth fydd cost economaidd lawn pandemig Covid-19 am flynyddoedd lawer.
- 1.3. Fodd bynnag, hyd yn oed yng nghanol y pandemig presennol, ac er gwaetha'r risgiau a ddaw gyda Brexit, mae cyfleoedd yn dal i fod i "adeiladu'n ôl yn well", i leihau anghydraddoldebau ac i wella lefelau llesiant yn gyffredinol, os gall Cymru fanteisio arnyn nhw. Gwlad fach yw Cymru sydd â rhwydweithiau cryf ac efallai llai o gysylltiad â'r *status quo*, o ystyried gwendid hanesyddol economi Cymru a'r bregusrwydd a amlygwyd gan bandemig Covid-19; mae ymwybyddiaeth gynyddol ymhlith y cyhoedd o beth fyddai'r effaith amgylcheddol a chymdeithasol pe baen ni'n parhau fel ydyn ni; ac mae ewyllys wleidyddol i wneud pethau'n wahanol, sydd wedi'i hymgorffori mewn

deddfwriaeth nodedig, fel [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\)](#) (Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol).

- 1.4. Nod y Ddeddf hon yw helpu i "greu Cymru yr ydym i gyd eisiau byw ynddi, nawr ac yn y dyfodol", ac mae'n nodi saith nod fel a welir yn ffigur 1, ynghyd â ffocws ar ddatblygiad cynaliadwy a phum ffordd o weithio<sup>1</sup> ([LIC, 2017](#)).

**Ffigur 1. Nodau Ilesiant**



Ffynhonnell: ([LIC, 2017](#)).

1.5. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymuno â [Rhwydwaith Llywodraethau'r Economi Llesiant](#) yn ddiweddar hefyd. Nod y rhwydwaith yw gwella llesiant drwy ddealltwriaeth ehangach o rôl yr economi, datblygu tuag at Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig gan ganolbwyntio'n benodol ar Nod 17<sup>2</sup> a gwella llesiant, a mynd i'r afael â heriau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Ategir y cynghreiriau rhyng-lywodraethol hyn â chynghreiriau sefydliadol fel [y Gynghrair Economi Llesiant](#), a ysbrydolodd Rhwydwaith Llywodraethau'r Economi Llesiant ac sy'n gweithio "i drawsnewid y system economaidd i un sy'n darparu llesiant dynol ac ecolegol" drwy weithredu ar y cyd ([y Gynghrair Economi Llesiant, 2020](#)). Mewn llawer o ffyrdd, mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn ymgorffori'r weledigaeth "economi llesiant" a hrwyddir gan y Gynghrair Economi Llesiant.

## **Y Sector Gwirfoddol yng Nghymru**

1.6. Mae dros 32,000 o sefydliadau yn y sector gwirfoddol (neu'r "trydydd sector" yng Nghymru ([CGGC, n.d.](#))). Er bod pethau cyffredin sy'n uno'r sector, fel strwythur nid-er-elw preifat ac annibyniaeth diben, mae hefyd yn amrywiol iawn gyda gwahaniaethau rhwng sefydliadau yn cynnwys:

- maint ac incwm. Mae dros hanner yr elusennau yng Nghymru yn ficro-elusennau sydd ag incwm llai na £10,000 y flwyddyn, ac mae gan chwarter yr elusennau incwm rhwng £100,000 a £1 miliwn;
- ffocws a diben cymdeithasol, gan gynnwys y celfyddydau, chwaraeon, iechyd, gwaith gwrth-dlodi, cymuned ac addysg; a
- llywodraethu a strwythur, gan gynnwys canghennau elusennau ffurfiol a mawr sy'n atebol i ymddiriedolwyr yn Lloegr, elusennau annibynnol yng Nghymru, grwpiau chwaraeon cyswllt neu di-gyswllt a grwpiau cymunedol heb gyfansoddiad. Caiff rhai eu cynnal yn llwyr gan wirfoddolwyr, ac mae gan eraill nifer fawr o staff proffesiynol cyflogedig.

---

<sup>2</sup>Nod 17 yw "Cryfhau'r dull cyflwyno ac adfywio'r bartneriaeth fyd-eang ar gyfer datblygiad cynaliadwy" ([Rhaglen Datblygu'r Cenhedloedd Unedig, n.d.](#)).

- 1.7. Mae'r cysylltiadau rhwng y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol wedi'u hymgorffori yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn unigryw i Gymru, mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn hyrwyddo buddiannau sefydliadau'r trydydd sector, ac mae cynllun y trydydd sector yn nodi sut bydd y llywodraeth yn gweithio gyda'r sector gwirfoddol.

### **Y papur gwyntyllu hwn**

- 1.8. Nod y papur gwyntyllu hwn yw "dwysáu dealltwriaeth ac ysgogi trafodaeth" drwy archwilio "rôl sefydliadau gwirfoddol yn llunio a gwireddu economi a fydd yn gwella llesiant hirdymor pobl" a datblygu "argymhellion ar ffyrdd ymlaen".

## 2. Ein heconomi a'n llesiant, heddiw ac yfory

### Cymru lewyrchus: yr economi ac arian cyhoeddus

- 2.1. Twf economaidd yw prif yrrwr safonau byw materol uwch ac mae'n darparu'r sylfaen dreth angenrheidiol er mwyn ariannu gwasanaethau cyhoeddus ([LIC, 2018](#)). Mae argyfwng economaidd 2008 yn parhau i lunio cyllid cyhoeddus a diwygiadau lles ([Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, 2019](#); [LIC, 2019](#)). Mae'r lefelau isel o gynhyrchiant economaidd yng Nghymru, sy'n rhannol gysylltiedig â swyddi cyflog isel, sgiliau isel ac ansicr, wedi cyfrannu at ddiffyg twf mewn incwm gwirioneddol, mwy o ddibyniaeth ar les nag unrhyw ran arall o'r DU, a hefyd yr heriau i ariannu gwasanaethau cyhoeddus ([LIC, 2018](#)).
- 2.2. Gan edrych tua'r dyfodol, nid yw'n sicr beth fydd effeithiau Covid-19 a Brexit ar economi Cymru, ond rhagwelir y byddan nhw'n negyddol. Bydd effaith Covid-19 yn dibynnu ar ffactorau fel hyd y cyfyngiadau symud, a fydd yn effeithio ar fusnes a chyflogaeth<sup>3</sup> a hefyd yn effeithio ar arian cyhoeddus ([Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, 2020](#)). Bydd effaith Brexit yn dibynnu i raddau helaeth ar drefniadau ymadael terfynol y Deyrnas Unedig, ond disgwylir y bydd yn cael mwy o effaith negyddol ar Gymru nag unrhyw ran arall o'r DU ([LIC, 2018; 2019](#)).

#### Enghreiffiau o gyfraniad y sector gwirfoddol

- Mae'r sector yn cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth. Gydag incwm cyfunol o £1,258 miliwn<sup>4</sup> a dros 100,000 o weithwyr, mae gan y sector rôl economaidd allweddol. Yn ogystal, amcangyfrifir bod

<sup>3</sup>Po hiraf y mae'r cyfyngiadau symud yn para, y mwyaf o risg y bydd busnesau'n methu ac yn cael eu "gwahanu" oddi wrth eu gweithwyr, gan olygu y bydd yn cymryd mwy o amser i'r economi adfer ([Y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, 2020](#)).

<sup>4</sup> Dyma incwm yr "elusennau cyffredinol" yng Nghymru, ac mae'n eithrio sefydliadau fel cymdeithasau tai a phrifysgolion.



amser gwirfoddoli yn cyfrannu cyfwerth ag £757 miliwn yng Nghymru. ([CGGC n.d.](#))

- Mae'r sector yn cyfrannu at fynd i'r afael ag achosion ac effaith anghydraddoldeb. Mae'n helpu i ddatblygu poblogaeth fedrus ag addysg dda, sy'n hanfodol er mwyn cynyddu cynhyrchiant, drwy ddarparu addysg, hyfforddiant, cyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol (e.e. drwy waith ieuenctid a gwirfoddol) ac mae'n cefnogi pobl a fyddai fel arall yn cael eu heithrio, drwy eu galluogi a'u hannog i gael mynediad at gyfleoedd dysgu a chyflogaeth.

## Grym a pholisi

- 2.3. Mae globaleiddio'n golygu y bydd penderfyniadau a wneir gan y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ledled y byd yn llunio economi a llesiant Cymru nawr ac yn y dyfodol; er enghraifft, bydd effaith newid hinsawdd yn dibynnu ar weithredu, neu ddiffyg gweithredu, rhyngwladol, a rhagdybir y bydd effaith economaidd Brexit "bron yn gyfan gwbl ddibynnol ar ddatblygiadau yn yr arena wleidyddol [yn y Deyrnas Unedig ac Ewrop]." ([LIC, 2018](#)). Fodd bynnag, mae lle i Gymru wneud pethau'n wahanol ac arwain newid yn y byd. Mae cynnydd wedi bod yng ngrymoedd y Senedd (gan gynnwys trethu), ac mae rhai yn ystyried bod Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn torri tir newydd.
- 2.4. Mae strategaeth economaidd y Senedd, Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu ar yr Economi ([LIC, 2019](#)) yn ceisio tyfu economi Cymru a lleihau anghydraddoldeb. Mae'n cynnwys ffocws newydd ar bedwar sector yr economi sylfaenol: twristiaeth, bwyd, adwerthu a gofal.

### Yr Economi Sylfaenol

Yr economi sylfaenol yw "econiomi hanfodion bob dydd" fel cyfleustodau, iechyd, addysg a thai. Dyna yw oddeutu hanner economi Cymru, ac mae'n

ganolog i lesiant pobl ([Froud et al., 2018](#)). Mae cryfderau'r economi sylfaenol o ran helpu i wireddu dibenion y Cynllun Gweithredu ar yr Economi i'w gweld yn y canlynol:

- ei ledaeniad, gan ei fod yn ei hanfod yn economi sy'n seiliedig ar bobl (yn hytrach na chynhyrchiant) a gaiff ei ddsbarthu gyda'r boblogaeth;
- ei natur sefydledig, gan ei fod yn cynnwys busnesau a gwasanaethau "angoredig" sydd wedi'u gwreiddio mewn lle neu ranbarth; ac
- ei gynaliadwyedd a'i wydnwch, gan ei fod yn cynnwys gwasanaethau hanfodol sy'n sail i gymdeithas Cymru ac y bydd bob amser eu hangen.


Mae'r rhain hefyd yn nodweddion a welir fel arfer (ond nid bob amser) yn y sector gwirfoddol.

- 2.5. Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi hefyd yn cynnwys model rhanbarthol o ddatblygiad economaidd, drwy Fargeinion Dinesig a Thwf a chynlluniau datblygu rhanbarthol, er mwyn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd unigryw a wynebir gan dair rhanbarth Cymru – y gogledd, y canolbarth a'r gorllewin, a'r de-ddwyrain.

### 3. Rôl y sector gwirfoddol yn llunio'r economi newydd

- 3.1. Mae'r sector gwirfoddol yn gwneud cyfraniad hollbwysig i'r saith nod llesiant a'r economi newydd. Mae hyn yn uniongyrchol ac yn bwrpasol ar adegau, er enghraifft pan gaiff y sector gwirfoddol ei gomisiynu neu ei ariannu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, mae llawer ohono sydd heb ei gyfeirio'n uniongyrchol at y nodau, yn yr ystyr bod sefydliadau'r sector gwirfoddol yn gweithredu'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru, ac nid ydynt yn cyfleu eu nodau nac yn gweithio'n benodol mewn perthynas â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.
- 3.2. Fel y mae ffigur 2 yn dangos, mae cyfraniad y sector gwirfoddol i ddarparu gwasanaethau yn amrywio o fodolau "contractio allanol", lle mae'r sector yn darparu gwasanaethau sydd wedi neu a allent gael eu darparu gan gorff statudol, fel gwasanaethau i'r rhai sy'n gaeth i gyffuriau ac alcohol, i wasanaethau a ddatblygwyd a'u hariannwyd yn annibynnol ar y sector cyhoeddus. Nid yw'r modelau yn annibynnol ar ei gilydd, ac mae'n bosib y bydd sefydliadau'n rhan o fwy nag un model cyflawni.

**Ffigur 2. Modelau darparu gwasanaethau**




- 3.3. Yn ogystal, fel yr amlinellir yn adran 2, mae'r sector yn gwneud cyfraniad pwysig at:

- llunio a llywio polisi a strategaethau ar gyfer newid, gan gynnwys eirioli, hunan-eirioli, ymchwilio, rolau cyd-gynhyrchiol a chyfeillion beirniadol, ymgyrchu a lobïo; a
- chefnogi sefydliadau eraill yn y sector gwirfoddol a chynyddu eu dylanwad a'u heffeithiolrwydd drwy, er enghraifft, hyfforddi a rhwydweithio.

3.4. Gall y sector chwarae rôl allweddol yn gwella gwaith llunio a gweithredu polisiâu drwy sicrhau bod llais gan y rhai a gaiff eu heffeithio'n uniongyrchol gan bolisi penodol, a thrwy leihau'r risg o "feddwl grŵp" ac "eithrio grwpiau wedi'u hymyleiddio" ([Rabey, 2015](#)).

3.5. Fel mae ffigur 3 yn dangos, mae hyn yn golygu y gall y sector gyfrannu at bob cam o'r cylch llunio polisi.


**Ffigur 3. Y cylch llunio polisi**



### Nodi a diogelu mantais cymharol y sector gwirfoddol

- 3.6. Ni all un sector ar ei ben ei hun gyflawni'r saith nod llesiant a nodir yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol. Felly, mae deall cryfderau a gwendidau perthynol pob sector yn hanfodol er mwyn adeiladu llesiant cynaliadwy.
- 3.7. Fel mae ffigur 4 yn dangos, mae'r sector gwirfoddol yn gweithio ar wahanol lefelau, neu "haenau", o ran cyflawni gwasanaethau, gan ategu'r sector cyhoeddus, a'r sector preifat yn achlysurol, ar bob haen.

**Ffigur 4. Haenau o gefnogaeth a gwasanaethau**



- 3.8. Disgrifiodd rhai o gyfranwyr y papur gwyntyllu hwn rôl y sector gwirfoddol fel "llenwi'r bylchau" a geir pan fo'r wladwriaeth neu'r farchnad yn methu neu'n camu'n ôl, lle nad yw gwasanaethau yn economaidd neu'n fforddiadwy. Yn benodol, roedd hyn yn cynnwys cysylltu â'r rhai a fyddai fel arall wedi'u

heithrio o gyfleoedd a gwasanaethau'r sectorau preifat a chyhoeddus. Nodwyd hefyd bod y sector gwirfoddol, a mentrau cymdeithasol yn benodol, yn dueddol o fod mewn meysydd economaidd lle mae costau mynediad yn is (e.e. yn nhermau arbenigedd, technoleg a chyfalaf) felly, er enghraifft, mae caffis y sector gwirfoddol yn llawer mwy cyffredin na bwytai'r sector gwirfoddol. Mae hyn yn dueddol o gyfyngu ym mha feysydd mae'r sector gwirfoddol yn gallu gweithredu, ac mae hyn yn un rheswm pam mae llai o wasanaethau arbenigol wedi'u darparu gan y sector gwirfoddol.

- 3.9. Fodd bynnag, roedd cyfranwyr eraill yn glir bod sefydliadau cymunedol a gwirfoddol yn gwneud mwy nag "ôl-lenwi" lle mae sectorau eraill yn methu neu wedi tynnu yn ôl. Maen nhw'n gallu gweithio mewn ffordd wahanol i'r sectorau cyhoeddus a phreifat, gan gynnig model amgen neu gyflenwol. Ar eu gorau, maen nhw'n gallu gweithio mewn ffyrdd hyblyg, cynaliadwy a chyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

#### **Mentrau cymdeithasol**

Mae mentrau cymdeithasol yn cymylu'r ffin rhwng y sector preifat a gwirfoddol. Maent yn unigryw oherwydd eu cenhadaeth a'u statws nid-er-elw preifat. Mae is-sector cymharol fach o sefydliadau gwirfoddol yn masnachu. Maen nhw'n gallu darparu gweithgarwch masnachol fel a ganlyn:

- gofal cymdeithasol lle, fel y dywedodd un cyfrannwr, "mae peidio yn teimlo'n briodol";
- gweithgynhyrchu a gwasanaethau, mewn ffyrdd sy'n cynyddu gwerth cymdeithasol drwy, er enghraifft, gyflogi pobl ag anableddau; a/neu
- masnachu'n gystadleuol, drwy gyfeirio eu gwarged at fudd cymdeithasol.

- 3.10. Mae'r sector gwirfoddol wedi cael ei herio i "gynyddu ei faint" a "phroffesiynoli" er mwyn cynyddu ei effaith. Gall hyn ddod â manteision pwysig, ond gall hefyd

ddod â risgiau sy'n tanseilio mantais gymharol y sector drwy golli ei "unigrywiaeth" o gymharu â sefydliadau'r sector cyhoeddus a phreifat ([VCSE, 2,016](#)). Nodwyd hefyd pan fo sefydliadau cymunedol anffurfiol yn y sector yn "cyrraedd pen eu taith", mae modd i sefydliadau mwy gymryd eu lle. Mae hyn yn adlewyrchu eu graddfa a'u capasiti mwy, ond hefyd, er enghraifft, bod yn well gan gomisiynwyr ariannu un sefydliad mwy yn hytrach na llawer o rai bach.

## **Cydweithredu**

3.11. O ystyried y gorgyffwrdd, a hefyd maint yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu Cymru, mae cydweithredu rhwng sectorau yn hanfodol. Dylai cyfuniad o lymder a'r ffyrdd y mae polisi cyhoeddus (drwy Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol) wedi mabwysiadu ethos y trydydd sector o weithio ataliol sy'n canolbwyntio ar bobl ac sy'n cynnwys pobl, olygu bod y berthynas rhwng y ddau yn agosach nag erioed. Gallai'r sector gwirfoddol fod â rôl allweddol yn helpu'r sector cyhoeddus i ddatblygu a chyflawni'r rolau hyn (e.e. drwy helpu i leisio profiadau bywyd pobl) ac mewn rhai cymunedau mae Covid-19 wedi dod â'r sectorau ynghyd yn fwy effeithiol nag erioed. Yr her fydd cynnal hyn yn yr hirdymor. Mae llawer yn llai o gydweithredu gyda'r sector preifat, ac roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo bod hyn yn gyfle wedi'i golli.

#### **4. Prif rwystrau a galluogwyr yng nghyfranogiad y sector gwirfoddol at lesiant a'r economi newydd**

##### **Cyllid**

- 4.1. Mae'n bosib mai cyllid yw'r brif her ar gyfer y sector. Er bod rhai sefydliadau cymunedol bach iawn yn dibynnu'n llwyr ar amser gwirfoddolwyr, mae angen adnoddau ariannol ynghyd ag adnoddau dynol ar y rhan fwyaf i weithredu. Mae llymder wedi lleihau cyllid i'r sector gwirfoddol<sup>5</sup> ac mae Brexit (a diwedd cronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd) yn bygwth lleihad pellach ynghyd â'r tebygolrwydd o gynyddu dibyniaeth ar y wladwriaeth yn hytrach na chyllid Ewrop, a oedd yn darparu mwy o annibyniaeth<sup>6</sup>. Mae hefyd yn anodd i'r sector fenthycia arian ar gyfer buddsoddiad cymdeithasol oherwydd, er enghraifft, nid oes gan fanciau lawer o brofiad yn benthycia i'r sector, mae angen sicrwydd/gwarant, ac iddyn nhw mae benthyciadau llai llawer yn llai proffidiol na benthyciadau mwy. Fodd bynnag, mae'r galw am fenthyciadau yn isel ac wedi'i rwystro gan argaeledd grantiau, diffyg profiad y sector â chyllid ad-daladwy, a'r angen i gynhyrchu gwarged er mwyn ad-dalu benthyciadau.
- 4.2. Mae cyllid yn llifo i flaenoriaethau a diddordebau cyllidwyr, ac mae enghreifftiau o fodolau cydweithredol neu gyd-gynhyrchu mewn strategaethau cyllido neu gomisiynu yn dal i fod. Mae'n bosib na fydd blaenoriaethau cyllidwyr yn gyson â rhai'r sector gwirfoddol, sy'n cynyddu'r perygl bod sefydliadau'n cael eu gyrru ar sail cyllid yn hytrach na chenhadaeth. Gall hefyd olygu nad yw cyllid yn llifo i'r meysydd hynny lle mae gan y sector gwirfoddol fantais cymharol, gan leihau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd

---

<sup>5</sup>Er enghraifft, yn ystod y pum mlynedd cyn 2014-15, torrodd Llywodraeth Cymru ei chyllid grant o 40% (£412 miliwn). Gosodwyd hyn yn rhannol yn erbyn cynnydd o £26 miliwn mewn contractau a ddyfarnwyd i'r trydydd sector, ond mae'n dal i gynryholi colled enfawr mewn incwm ([CGGC, 2016](#)).

<sup>6</sup>Amcangyfrifir bod £304 miliwn o gyllid yr Undeb Ewropeaidd wedi mynd i'r sector gwirfoddol yn y rownd gyllido 2007-2013 ([CGGC, n.d.](#)).



cyllido. Mae contractau a grantiau sydd wedi'u cyfyngu yn ôl amser hefyd yn cyfrannu at ansefydlogrwydd sefydliadau.

### **Sgiliau ac ysbryd entrepreneuriaid**

4.3. Mae gweithlu'r sector yn gryfder allweddol. Mae gwerthoedd a chenhadaeth y sector gwirfoddol yn helpu i ddenu gwirfoddolwyr a staff sy'n angerddol dros newid bywydau a chymunedau. Yn aml mae staff cyflogedig yn fodlon derbyn cyflogau is, telerau ac amodau gwaeth, a llai o sicrwydd gwaith o'u cymharu â sectorau cyhoeddus a phreifat. Fodd bynnag, mae sefydliadau llai sydd â phroffil is weithiau'n ei chael yn anodd recriwtio arweinwyr (gan gynnwys ymddiriedolwyr) sydd â'r sgiliau a'r profiadau angenrheidiol i gyflawni eu potensial a chynyddu effaith. Ar lefel fwy eang, nid yw'r hyn a ddisgrifiodd un cyfrannwr fel "ysbryd entrepreneuriaid", a'r hyder, yr uchelgais a'r penderfyniad sy'n gysylltiedig â hyn, wedi'i ddsbarthu'n gyfartal ar draws y sector gwirfoddol – nac ychwaith yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, yng Nghymru. Mae gan sefydliadau fel Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Ymddiriedolaeth Cranfield a Chymorth Busnes Cymru oll rolau allweddol i'w chwarae yma er mwyn helpu i ddatblygu gweithlu a chyfraniadau economaidd y sector.

### **Cynyddu a lleihau maint**

4.4. O ystyried ei fantais cymharol, gall y sector gwirfoddol yng Nghymru wneud mwy, a dylai wneud hynny. Un ffordd o wneud hynny fyddai i sefydliadau gynyddu eu maint. Gall hyn helpu sefydliadau i gynyddu eu heffaith, sicrhau darbodusrwydd maint, hwyluso proffesiynoli, a datblygu arferion a pholisïau adnoddau dynol ac ansawdd. Nododd cyfranogwyr hefyd fod gan sefydliadau mwy o faint sydd â swyddogion polisi y gallu i ddylanwadu ar bolisi, rhywbeth nad oes gan sefydliadau llai sy'n canolbwyntio ar oroesi a darpariaeth. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn adran 3, mae cynyddu maint yn dod â heriau hefyd, a gall danseilio nodweddion y sector gwirfoddol ar ei orau, fel yr hyblygrwydd i fod â ffocws ar unigolion, ar adeg pan fo angen hyn fwyaf. Wrth ystyried

dibyniaeth y sector ar gyllid allanol, nododd un cyfrannwr hefyd y gall aros yn driw i'ch cenhadaeth a'ch gwerthoedd olygu gorfod lleihau maint ar adegau, yn hytrach na chwilio am gyllid er mwyn gallu cynnal maint presennol sefydliad.

## **Mesur effaith**

- 4.5. Fel y mae adran 2 yn ei amlinellu, mae'r sector gwirfoddol yn gwneud cyfraniad hanfodol i economi a llesiant Cymru, ond mae rhai cyfranwyr i'r papur gwyntyllu hwn yn pryderu na chaiff cyfraniad y sector ei gydnabod, ei ddeall na'i werthfawrogi yn llawn gan nad yw'r sector yn mesur ei effaith lawn yn effeithiol (hynny yw y gwahaniaeth mae'n ei wneud, yn hytrach nag allbwn a thargedau cyllidwyr). Fel y mae adran 2 yn amlinellu, mae effaith y sector yn eang iawn. Fodd bynnag, mae'n bosib mai dim ond cyfran fach o'u cyfraniad mae comisiynwyr a chyllidwyr yn ei werthfawrogi ac yn gofyn i sefydliadau ei fesur. Felly, er enghraifft, gall awdurdod lleol ariannu meithrinfa a ddarperir gan sefydliad cymunedol, a gofyn i'r sefydliad gyfrif ar gyfer mewnbwn ac allbwn, fel nifer y llfeydd a ddarperir ac a lenwir. Fodd bynnag, mae'n bosib na fyddai diddordeb ganddynt yn effaith economaidd a chymdeithasol ehangach y cyllid ar y sefydliad a'r gymuned mae'n ei gwasanaethu, fel y ffyrdd y mae'r ganolfan hefyd yn hwb i'r gymuned, yn darparu gofod cymdeithasol i ryngweithio, gan ddarparu'r wybodaeth, y cyngor a'r gefnogaeth yma; cyfraniadau pwysig iawn i lesiant y gymuned, ond sy'n amherthnasol i gyllidwr sy'n canolbwyntio mewn ffordd gul ar yr hyn maen nhw'n deimlo maen nhw'n dalu amdano.
- 4.6. Mae'r methiant hwn i ddangos ei effaith yn llawn yn tanseilio achos y sector am gyllid ac i gael ei glywed mewn gwaith llunio polisi. Mae ffocws cul ar fonitro gofynion cyllidwyr hefyd yn cyfyngu ar allu'r sector i ddysgu a gwella ei effeithlonrwydd a'i effeithiolrwydd, i ychwanegu at ddealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio, ac i adrodd wrth ei randdeiliaid, gan gynnwys nid yn unig cyllidwyr, ond y bobl a'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu.

## 5. Casgliadau ac Argymhellion

- 5.1. Mae lle i gynyddu cyfraniad economaidd y sector gwirfoddol, yn enwedig yr economi sylfaenol, lle bydd ganddo ar adegau fantais gymharol dros y sectorau cyhoeddus a phreifat, o ystyried ei fod yn gweithredu ar sail lle a phobl. Fodd bynnag, os caiff ei fesur mewn telerau economaidd cul, o ran yr allbwn a'r swyddi a gaiff eu creu yn uniongyrchol, bydd cyfraniad y sector gwirfoddol yn bwysig, ond yn bitw o gymharu â'r sectorau preifat a chyhoeddus, wedi'i gyfyngu gan raddfa a heriau cynyddu maint.
- 5.2. Byddai safbwynt ehangach sy'n ystyried cyfraniadau'r sector i, er enghraifft, iechyd a sgiliau (ac felly cynhyrchiant), cyfalaf cymdeithasol (ac felly cyfnewid gwybodaeth a rhwyddineb trafodion economaidd) a pholisi cymdeithasol – er ei fod yn amhosib ei feintioli – yn adlewyrchu cyfraniad economaidd y sector yn well.
- 5.3. Gan edrych tua'r dyfodol, er gwaetha cost ddynol a chymdeithasol Covid-19 a'r risgiau a ddaw gyda Brexit, mae cyfleoedd yn dal i fod i "adeiladu'n ôl yn well", i leihau anghydraddoldebau ac i wella lefelau cyffredinol llesiant, os gall Cymru fanteisio arnyn nhw. Mae Cymru'n ymroddedig (drwy Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol) i ddatblygu economi sydd â chynaliadwyedd a llesiant wrth ei wraidd. O ystyried maint a chymhlethdod yr heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu Cymru, ni ellir cyflawni hyn heb gyfraniad gweithredol y sector gwirfoddol. Mae hyn yn creu cyfle unigryw am ragor o gydweithredu rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.
- 5.4. Gall cydweithredu fod ar lawer o ffurfiau, ac nid "cangen gyflawni" y sector cyhoeddus yn unig yw'r sector (fel y caiff ei ystyried yn achlysurol); mae'n gallu gwneud cyfraniadau hanfodol i'r canlynol:
- gosod agenda a pholisïau Cymru drwy, er enghraifft, ymchwilio, eirioli ar ran y rhai y mae'r sector yn gweithio gyda ac ar eu rhan, gweithredu fel cyfaill

beirniadol, a lobïo ac ymgyrchu dros newid, sicrhau y caiff amrywiaeth o leisiau eu clywed mewn prosesau llunio polisi, a meithrin naratifau newydd sy'n galluogi ac sy'n annog newid;

- gweithredu polisi a mynd i'r afael â gwendidau yn ei weithrediad drwy ffyrdd y sector o weithio sydd, ar eu gorau, yn rhai hirdymor, cydweithredol, cynhwysol, hyblyg a chyfannol (neu integredig), gan ganolbwyntio ar atal;
- cryfhau'r economi sylfaenol drwy, er enghraifft, fentrau cydweithredol cymunedol a grwpiau bwyd; ac
- adolygu polisi, llywio dysgu a gwaith datblygu polisi a dal y sectorau cyhoeddus a phreifat i gyfrif. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, annog y sector preifat i fabwysiadu modelau ac ymagweddau newydd, sy'n cyfrannu'n well at nodau llesiant Cymru.

5.5. Serch hynny, mae llymder wedi gwanhau'r sector gwirfoddol, ac mae'r pwysau ar y sector i, er enghraifft, broffesiynoli, cynyddu maint ac amrywio'i gyllid drwy fwy o waith comisiwn a grantiau â ffocws cul, yn cynnig manteision, ond mae hyn hefyd yn cyflwyno risg y bydd sefydliadau'n cael eu tynnu oddi wrth eu cenadaethau gwreiddiol.

5.6. Er mwyn i'r sector gyflawni ei botensial fel rhan greiddiol o economi llesiant, mae angen cyllid digonol arno. Mae'n debygol y bydd angen mwy o ymagweddau cydweithredol tuag at gomisiynu a chyllido, gan gynnwys "llunio'r farchnad", ar gyfer hyn<sup>7</sup>. Gallai gynnwys datblygu ffyrdd gwell o nodi gwerth a chyfraniad gwirioneddol y sector, yn hytrach na chanolbwyntio'n gul ar y darparwr cost isaf; ac ystyried ymhellach beth yw anghenion y sector, fel rhagor o sefydlogrwydd cyllid os yw'n gallu cynnal ei ffyrdd cyfannol, cyd-gynhyrchiol ac wedi'u gwreiddio o weithio; ffyrdd o weithio sy'n cymryd amser i'w datblygu a'u gwreiddio mewn cymunedau. Gall ffynonellau cyllido amgen,

---

<sup>7</sup>Mae "llunio'r farchnad" yn cynnwys symud o fodel "rheolaeth" cul i rôl a pherthynas ehangach gyda'r "farchnad" (e.e. darparwyr gwasanaeth) sy'n cynnwys "dylanwadu, cydgynhyrchu a chydweithredu" gyda darparwyr i sicrhau ei fod yn bodloni anghenion lleol, ac sy'n cynnwys ystyried ffactorau fel "techyd" a digonolrwydd gweithluoedd darparwyr ([IPC, 2016](#)).

gan gynnwys cyllid ad-daladwy, hefyd fod yn bwysig yma er mwyn galluogi'r sector i gynyddu maint, gan gynnal ei annibyniaeth.

- 5.7. Mae maint cymharol fach y sector yn her wrth ddylanwadu ar bolisi a gweithredu polisi. Gall cynyddu maint fod yn bwysig, ond gall gyflwyno peryglon hefyd, wrth i enillion o ran capasiti beryglu tanseilio ffyrdd cynhwysol ac ymatebol o weithio, sy'n gryfder allweddol i'r sectorau. Mae'n bosib y bydd angen i'r sector gydweithredu'n fwy ar sail sectoraidd, gan ategu gwaith ar sail ddaearyddol, drwy Gynghorau Gwirfoddol Sirol a'r CGGC, fel bod modd iddo gyfleu llais cyffredin ar faterion allweddol. Gall hyn hefyd ei gwneud yn haws i'r sector ddod yn aelodau gweithredol o rwydweithiau polisi. Mae'n bosib y gall modelau fel Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol a Cytûn - Eglwysi Ynghyd yng Nghymru, fod yn dempledi defnyddiol yma.
- 5.8. Er bod y sector yn gwneud cyfraniad hanfodol i economi a llesiant Cymru, mae hefyd rhaid iddo fod yn destun herio a chraffu. Mae gan y sector fanteision cymharol, ond gwendidau hefyd, ac mae perfformiad yn y sector, fel yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, yn amrywio. Mae angen deall ei gryfderau a'i wendidau yn well er mwyn i gyllid gael ei ryddhau yn y manau lle y mae'n fwyaf effeithiol.
- 5.9. Yn olaf, mae'n bwysig cadw mewn cof bod amrywiaeth y sector yn gwneud cyffredinoli yn anodd, ac efallai nad yw'r hyn sy'n wir am un rhan yn wir am ran arall o'r maes cyfoethog ac amrywiol hwn yng nghymdeithas Cymru.